CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Pontio a chynnydd disgyblion: ymateb y llywodraeth

Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud mewn ymateb i adroddiad ac argymhellion Estyn.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 25 Medi 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 25 Medi 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/pontio-chynnydd-disgyblion-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Manylion yr adroddiad

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Argymhellion

Manylion cyhoeddi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/pontio-chynnydd-disgyblion-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion yr adroddiad

Mae cynnydd dysgwyr yn rhan greiddiol o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae profiad dysgwyr drwy gydol y continwwm 3 i 16 yn hanfodol ar gyfer cefnogi'r uchelgais hwn, gan gynnwys wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae'r adolygiad hwn yn ystyried sut mae pontio yn cyd-fynd â'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Mae'n gwerthuso pa mor dda y mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cwricwlwm sy'n sicrhau bod gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion ar draws meysydd dysgu a phrofiad yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae'n ystyried sut mae ysgolion yn cefnogi lles dysgwyr yn y cyfnod pontio pwysig hwn, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu'r galluoedd a'r tueddiadau i wireddu'r pedwar diben.

# Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

## Arweinyddiaeth a thrafodaethau pontio

Mae penaethiaid ac uwch arweinwyr y rhan fwyaf o glystyrau o ysgolion yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y Cwricwlwm i Gymru a chefnogi'r cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Er bod y cyfarfodydd hyn yn helpu i sicrhau ymsefydlu effeithiol a chefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), maent yn aml yn methu â chreu continwwm dysgu llyfn.

Er bod ysgolion cynradd yn trosglwyddo gwybodaeth ddysgu amrywiol i ysgolion uwchradd, nid oes llawer o eglurder ynghylch disgwyliadau ar gyfer dysgu a chynnydd, sy'n cyfyngu ar effeithiolrwydd y prosesau hyn. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn canolbwyntio ar sgoriau safonedig heb ddefnyddio ystod eang o ddata asesu yn llawn wrth gynllunio'r cwricwlwm.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/pontio-chynnydd-disgyblion-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gofynion cynllun pontio

Er bod arweinwyr yn ymwybodol o'r canllawiau pontio diweddaraf, mewn nifer o gynlluniau ni cheir ffocws clir ar sicrhau parhad dysgu trwy gynllunio'r cwricwlwm a strategaethau addysgu. Mewn ysgolion pob oed, mae'r enghreifftiau gorau yn cynnwys datblygu continwwm dysgu pwrpasol o 3 i 16 oed, ond mae rhai lleoliadau'n dal i drin cyfnodau cynradd ac uwchradd ar wahân ac mae cydlyniant y cwricwlwm a chynllunio cynnydd yn anghyson.

## Darpariaeth i ddisgyblion ag ADY

Mae cefnogaeth bontio i ddisgyblion ag ADY yn gryf ar y cyfan, gyda chydweithio cynnar rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

## Cymorth llesiant

Yn gyffredinol, mae clystyrau'n dda am gefnogi llesiant disgyblion yn ystod y cyfnod pontio, yn enwedig i'r rhai a allai gael trafferth, trwy gynnig gweithgareddau wedi'u teilwra ac ymweliadau cynnar.

## Cynllunio'r cwricwlwm a chynnydd

Mae ychydig o glystyrau wedi gweithio gyda'i gilydd i nodi gwybodaeth a sgiliau blaengar ar draws meysydd dysgu, fodd bynnag, yn aml nid yw ysgolion uwchradd yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i adeiladu ar ddysgu blaenorol. Mae'n hanfodol i ysgolion sy'n gweithio ar y cyd gael dealltwriaeth gyffredin o ofynion Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni ar gyfer cynnydd dysgwyr tuag at y pedwar diben.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/pontio-chynnydd-disgyblion-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Dealltwriaeth gyffredin o gynnydd

Mae lleiafrif o glystyrau wedi sefydlu grwpiau ymarferwyr sy'n canolbwyntio ar gynnydd dysgwyr gyda'r bwriad o feithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Fodd bynnag, mae'r ymdrechion hyn yn dal i fod ar y camau cynnar, a bydd angen amser i'w sefydlu.

## Dysgu proffesiynol

Mae llawer o ysgolion yn darparu dysgu proffesiynol i helpu i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Fodd bynnag, ychydig o glystyrau sydd wedi rhannu strategaethau addysgu i sicrhau cynnydd effeithiol a pharhaus o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

# Argymhellion

## Argymhellion ar gyfer ysgolion

### Argymhelliad 1

Datblygu dealltwriaeth gliriach ar y cyd o gynnydd o fewn eu clystyrau o ysgolion, ac ar eu traws.

### Argymhelliad 2

Gweithio’n agosach fel clystyrau i sicrhau bod ymagweddau at rannu gwybodaeth, addysgu a’r cwricwlwm yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/pontio-chynnydd-disgyblion-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gwybodaeth, medrau ac ymddygiadau dysgu yn raddol rhwng 3 ac 16 oed.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r argymhelliad hwn ac yn cydnabod pwysigrwydd datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a gweithio'n effeithiol rhwng ysgolion.

Mae **canllawiau ar gyfer pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd** Llywodraeth Cymru yn nodi'r cyfrifoldebau cyfreithiol ynghylch trefniadau pontio ar gyfer pob ysgol a lleoliad ochr yn ochr ag **enghreifftiau ymarferol gan ysgolion a chlystyrau**. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu cyllid i ysgolion ledled Cymru i gefnogi eu gwaith o ddatblygu’r cwricwlwm, gan gynnwys cydweithio rhwng ysgolion a datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd i gefnogi dysgwyr wrth bontio. Yn 2024 i 2025 mae'r cyllid hwn i ysgolion yn £6 miliwn.

Bydd canllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu diweddaru ym mis Ionawr bob blwyddyn gyda’r newidiadau yn cael eu manylu’n glir ar **brif dudalen y Cwricwlwm i Gymru ar Hwb**.

Yn ogystal â'r deunyddiau ategol presennol, byddwn yn parhau i gyd-lunio canllawiau a chymorth i ysgolion sy'n glir ac yn ymarferol i gefnogi dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr ar hyd y continwwm 3 i 16. Bydd hyn yn cynnwys cymorth sydd ar gael yn genedlaethol ac ystod o offer a thempledi a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Gorffennaf, a fydd ar gael drwy gydol y flwyddyn academaidd hon. Gall clystyrau ddefnyddio'r rhain i gynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu gyda'i gilydd.

Dylai ysgolion weithio ar y cyd yn eu hardal leol, mewn partneriaeth â'u Hawdurdod Lleol, i nodi strategaethau hirdymor i fynd i'r afael â heriau lleol 3-16, gan nodi a mynd i'r afael â rhwystrau rhag dysgu cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau cyfnod pontio llyfn i bob dysgwr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/pontio-chynnydd-disgyblion-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hwyluso cyfleoedd i ymarferwyr ddylanwadu ar ddatblygiad polisi yn y dyfodol drwy gyfleoedd ar gyfer cyd-awduro megis y **Grŵp Polisi Ymarferwyr** a **sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol.** Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid addysg i gyhoeddi a rhannu enghreifftiau o amrywiaeth o ysgolion a lleoliadau ledled Cymru ac mae'n croesawu cameos defnyddiol i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru

### Argymhelliad 3

Rhoi canllawiau clir ar gymhwyso sut i ddatblygu cynnydd yn ymarferol trwy'r cwricwlwm, ac ar ei draws.

#### Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ganllawiau ar gyfer pontio** o fewn y Cwricwlwm i Gymru ac ystod o **ddeunyddiau ategol** ac **astudiaethau achos** ar sefydlu prosesau pontio effeithiol o fewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau. Yn ogystal, eleni gwnaethom gyhoeddi **deunyddiau ategol** pellach ar sefydlu prosesau ar gyfer dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a gweithio clwstwr effeithiol.

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad o'r canllawiau statudol ar y broses ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a threfniadau asesu. Lluniwyd yr adran **Ymlaen â'r Daith** er mwyn helpu ymarferwyr mewn ysgolion (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol) gyda chamau ymarferol cynllunio a gweithredu eu cwricwlwm, a'i adolygu'n barhaus. Mae'n rhoi arweiniad ar sut y dylai ysgolion gynllunio a threfnu eu dulliau o wireddu disgwyliadau'r cwricwlwm a dealltwriaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/pontio-chynnydd-disgyblion-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyffredin o gynnydd.

Er bod y canllawiau byrrach a symlach hyn wedi cael derbyniad da gan ysgolion, rydym yn cydnabod y byddai cymorth pellach ar gymhwyso cynnydd yn ymarferol ar draws y Cwricwlwm i Gymru yn ddefnyddiol i ysgolion. Ar 2 Gorffennaf, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg amrywiaeth o gymorth sydd ar gael yn genedlaethol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys rhagor o fanylion ac enghreifftiau o dulliau o sicrhau cynnydd ac asesu, a gwerthuso a chyfleu cynnydd y dysgwyr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyd-lunio'r manylion a'r fframweithiau hyn gydag ysgolion a phartneriaid i sicrhau eu bod yn briodol, a sicrhau bod gan ysgolion y cymorth i roi hyn ar waith. Cyhoeddir y cyntaf yn ystod tymor y gwanwyn. Byddwn hefyd yn helpu ysgolion i weld enghreifftiau o gynllunio cwricwlwm, cynnydd ac asesu, drwy hyrwyddo a rhannu arfer effeithiol a ddatblygwyd drwy gydweithio rhwng ysgolion ac ysgolion.

## Argymhelliad 4

Sicrhau bod cymorth digonol i alluogi arweinwyr ac athrawon i ddatblygu cwricwlwm cydlynus a graddol sy’n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae prosiect **Camau i'r Dyfodol** wedi dod ag ymarferwyr, arweinwyr ysgolion a phartneriaid ynghyd ar draws y system addysg i gyd-greu gwybodaeth a dulliau newydd i helpu i roi'r cwricwlwm ar waith, ac yn benodol i sicrhau cynnydd. Cyhoeddwyd ystod o ddeunyddiau ategol ym mis Medi 2023 i helpu ymarferwyr ledled Cymru i:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/pontio-chynnydd-disgyblion-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- ymgymryd â'r un broses o ddysgu a meddwl am y cwricwlwm a chynnydd
- cael mynediad at ddeunyddiau a grëwyd gan gyfranogwyr y prosiect, wedi'u cynllunio i gefnogi dealltwriaeth ymarferol o'r Cwricwlwm i Gymru a sicrhau cynnydd

Mae cymorth pellach ar gyfer cynllunio cwricwlwm ac asesiadau ar gael yn genedlaethol o fis Medi ymlaen. Bydd hyn yn helpu arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr yn yr ystafell ddosbarth i gael cymorth i ddefnyddio canllawiau yn effeithiol, dealltwriaeth ymarferol o'r broses o gynllunio'r cwricwlwm, sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, a chyfleoedd wedi'u cynllunio ar gyfer cydweithredu o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion i gefnogi prosesau ar gyfer cynllunio cwricwlwm cydlynol a blaengar.

Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru a phartneriaid addysg yn darparu ystod o gymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd, ac ar gyfer cynllunio dysgu o fewn ac ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Bydd y cymorth penodol hwn yn helpu gweithwyr proffesiynol i gynllunio cynnydd ym mhob Maes, a dewis cynnwys pwrpasol ac ymestynnol sy'n herio ac yn ennyn diddordeb dysgwyr, gan helpu ymarferwyr i gynllunio datblygiad gwybodaeth a sgiliau perthnasol sy'n cefnogi cynnydd eu dysgwyr. Byddwn yn dechrau treialu'r gefnogaeth hon ym mlwyddyn academaidd 2025 i 2026.

## Argymhelliad ar gyfer Awdurdodau Lleol

### Argymhelliad 5

Annog a chefnogi cydweithio cryfach ymhlith clystyrau i fynd i’r afael â’r argymhellion yr ydym wedi’u nodi ar gyfer ysgolion, gan ganolbwyntio ar sefydlu clystyrau diffiniedig ag amcanion penodol a chlir.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/pontio-chynnydd-disgyblion-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r argymhelliad hwn, gan nodi rôl hanfodol Awdurdodau Lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgolion i sicrhau cydweithredu effeithiol ymhlith ysgolion a chlystyrau.

Ein gweledigaeth yw cymunedau lleol cysylltiedig sydd â phwrpas cyffredin; mae arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion yn perthyn ac yn cyfrannu at amgylchedd lleol agored, cynhwysol a chefnogol. Mae gan arweinwyr ysgolion ac Awdurdodau Lleol weledigaeth glir a phwrpas moesol cyffredin i sicrhau cynnydd pob dysgwr ar draws pob ysgol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Canllawiau Gwella Ysgolion diwygiedig yn y flwyddyn newydd yn amlinellu rôl Awdurdodau Lleol ac ysgolion wrth gefnogi prosesau clir ar gyfer nodi cydberthnasau gwaith effeithiol o fewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau yn unol â'r **Cyfarwyddyd Gweinidogol ar gyfer datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.**

Fel y cyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar **2 Gorffennaf,** bydd cymorth sydd ar gael yn genedlaethol yn cael ei ddarparu o hydref 2024 ymlaen i sicrhau bod pecyn cydlynol o gymorth yn cael ei ddarparu i ysgolion o fewn ac ar draws clystyrau o ysgolion i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr.

Byddwn yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i feithrin capasiti ar draws ein system ar amrywiaeth o feysydd cwricwlwm sy'n hanfodol i sicrhau pontio pwrpasol i bob dysgwr. Gan adeiladu ar yr ystod o gymorth a gynigir eisoes gan bartneriaid addysg, bydd ffocws penodol ar ddatblygu prosesau effeithiol ar gyfer cydweithredu sy'n blaenoriaethu dulliau cyffredin o ddeall cynnydd dysgwyr a chodi cyrhaeddiad i ddysgwyr ledled Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/pontio-chynnydd-disgyblion-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyhoeddi

Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ar 18 Medi 2024 **a gellir ei ganfod ar wefan Estyn**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/pontio-chynnydd-disgyblion-ymateb-y-llywodraeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.